OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 No. 1080

# Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Cymru) (Mewnforio Adar Caeth) 2007

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Cymru) (Mewnforio Adar Caeth) 2007.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 1 Ebrill 2007.

**2.** Yn rheoliad 16(4) o Reoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Cymru) 2006(**1**), yn lle "1 April 2007" rhodder "1 July 2007".

**3.** Dirymir rheoliad 2(3) o Reoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Cymru) (Diwygio) 2006(**2**) .

**4.** Dirymir Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2006(**3**).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**)

*D. Elis-Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

28 Mawrth 2007

(**1**) O.S. 2006/1536 (Cy. 153), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2006/2128 (Cy. 198) ac O.S. 2006/3452 (Cy. 313).
(**2**) O.S. 2006/2128 (Cy. 198).
(**3**) O.S. 2006/3452 (Cy. 313).
(**4**) 1998 p.38.